

AR WERTH – FFARM GYMUNEDOL

Lôn Felin Hen, Tregarth, Gwynedd, LL57 4BB

Ffarm
Moelyci

I feithrin bwyd da, bywyd
gwyllt a menter lleol
For good food, wildlife and
enterprise nurtured locally



Mae ffarm Moelyci yn swatio yng nghesail y Foel ac mae'n cynnig lle delfrydol i'r gymuned leol ddod at ei gilydd a chymryd rhan mewn gweithgareddau, gan fwynhau'r cyfoeth o fywyd gwyllt sydd i'w gael yma. Mae gan y fenter gymunedol hon 337 erw, ar gyrion Parc Cenedlaethol Eryri ac o fewn cyrraedd rhwydd i'r A5 a'r A55.

Rydym yn cynnig cyfle arbennig iawn i sicrhau cyfuniad o dir, adeiladau, mentrau a grwpiau, gan ddatblygu busnes cynaliadwy. Gwahoddir tendrau am y ffarm ac mae'n cael ei marchnata fel eiddo gyda meddiant gwag. Er hynny, mae'n eiddo cwbl unigryw gan fod cynifer o weithgareddau'n digwydd yma a bod amrywiaeth ecolegol bwysig ar y ffarm. Mae cyfle yma i barhau i redeg Moelyci mewn cydweithrediad ag amryw byd o randdeiliaid sydd yn cynnal mentrau cymunedol ar y ffarm, pob un ohonynt yn ychwanegu gwerth mawr i'r ffarm yn ei chyfanrwydd. Dyna y mae pobl leol am ei weld yn digwydd.

Daeth Ffarm Moelyci i fod drwy gefnogaeth ac ymdrech y gymuned. Darperir yma grynodedb o hanes pob agwedd ar y ffarm. Hoffem eich gwahodd hefyd i ymuno â ni ar ymweliad â'r ffarm, er mwyn i chi gael gweld sut y mae'r gymuned yn cydweithio yma er lles pawb. Fe ddaw yn amlwg i chi pam y mae'r ffarm mor annwyl yng ngolwg pobl y fro.

Pris Pan Ofynnir

office@moelyci.org
01248 602 793

Lleoliad

Mae Ffarm Moelyci mewn lleoliad perffaith, yng nghymuned fechan Tregarth ger Bangor. Mae yng nghanol y wlad ac eto'n agos iawn at ffyrdd yr A5 a'r A55 (Cyffordd 11). Mae'n cynnig y math o dawelwch a gewch mewn man diarffordd ac eto bydd pobl yn dod o hyd i'r lle yn rhwydd. Yn rhan isa'r ffarm y cynhelir y gweithgareddau ac yno hefyd y mae ein caffi a'n siop. I fyny drwy gymunedau Sling a Mynydd Llandygái y mae cyrraedd y mynydd.

Y Gymuned a'r Fenter

Mae'r ffarm wedi llwyddo oherwydd bod criw mawr o bobl ymroddedig a gwirfoddolwyr lleol yn cymryd rhan mewn myrdd o wahanol weithgareddau sydd yn cael eu cynnal ar y ffarm. Byddai'n anodd marchnata'r ffarm heb sôn yn benodol am y gweithgareddau hyn a dangos pa mor werthfawr a buddiol y byddent i unrhyw un sydd am brynu'r ffarm.

Mae'r gweithgareddau'n gyfuniad amrywiol ac arbennig iawn o grwpiau gwirfoddol cymunedol y mae'r ffarm gyfan yn elwa o'u presenoldeb, ynghyd â mentrau penodol, rhanddeiliaid, prosiectau a chyfleusterau:

Deiliaid Rhandiroedd

60+ o ddeiliaid rhandiroedd dros 2 gae, yn dilyn egwyddorion organig

Ysgubor a Chegin

Ys tafell gymunedol i'w llogi a chegin hyfforddi gyda chyfarpar llawn.

Siop a Chaffi Blas Lôn Las

Siop Gymunedol a Chaffi sy'n cefnogi bywyd a chynhyrchwyr lleol.

Cosyn Cymru

Gwneuthurwr caws a iogwrt llaeth defaid lleol a robryn.

CH—Redirect

Prosiect i droi biomas yn ynni gan ychwanegu gwerth i ffemeydd gwledig.

Y Lle Tyfu

Tyfu lllysiau, perlysiau, blodau a phlanhigion meddygi niaethol yn foesebol ac organig.

PhytoPilot

Mentersy'n cynhyrchu bywyd pysgod cynaliadwy o wastraff.

Grŵp y Berllan

Grŵp gwirfoddol cymunedol yn cynhyrchu seidr a gell ygwinn.

Grŵp Bywyd Gwylt

Cynnal a rolygon a rheoli cynefinoedd, gwirfoddoli.

Grŵp Coetir

Rheoli coetir, prysgoedio.

Asynnod Eryri

Elusen sy'n cynnig iechyd a lles drwy ofalu am asynnod.

... A chymaint, cymaint mwy!

Os mai diddordeb mewn prynu'r ffarm yn unig sydd gennych...

Mae'r gwerthiant yn digwydd trwy Jones Peckover, ein hasiantau lleol. Rydym yn gobeithio'n fawr y gwelwn gefnogwyr neu brynwyr sy'n dymuno cydweithio â rhanddeiliaid Ffarm Moelyci gan sicrhau bod y gweithgareddau a'r grwpiau yn parhau.

jonespeckover.co.uk
01745 832 240



Disgrifiad

Mae'r ffarm ar werth fel 4 parcel o dir, pob un yn unigryw o ran defnydd ac ecoleg.

Mynydd Moelyci—214 erw

Mae'r mynydd yn SoDdGA ac mae ar wahân i weddill y ffarm; cyrhaeddir yno drwy Fynydd Llandygái. 214 erw o dir pori uchel ydyw ac yn y pwynt uchaf mae 400m uwchlaw lefel y môr. Mae yno lawer o rug a rhedyn yn ogystal â thir pori.

Y Parc (Sling) - 37.4 erw

Ffarm fynydd yw'r Parc gyda thir pori cymysg, grug a rhedyn a chreigiau mawr. Mae'r garreg kannan fwyaf yn y Gogledd i'w gweld ar y creigiau hyn. Cyrhaeddir yno ar hyd lôn fach o Sling.

Y Ffridd—38.9 erw

Mae'r Ffridd ar ochr ddeheuol y ffarm isaf ac yno mae tir pori cymysg a hefyd coetir a chreigiau. Mae cefylau a defaid yn pori ar y Ffridd a dyma lle mae'r rhan fwyaf o SoDdGA Moelyci.

Ffarm ac Adeiladau Moelyci—47.1 erw

Mae'r ffermdy a'r adeiladau, a'r rhan fwyaf o'r gweithgareddau, yng nghaeau isaf Moelyci sef pen gogleddol y ffarm. Mae'r rhan hon o'r tir yn ymestyn i gyfeiriad y De at y Goedwig a Chae'r Afon a gellir cyrraedd yno o'r brif rodfa oddi ar y B4409. Ceir yma 90 erw o dir pori, coetir a rhandiroedd ac mae un rhan wedi'i neilltuo ar gyfer gardd fasnachol gyda pholidwneel a siop/caffi. Yn ogystal, mae yno berllan fach a chae lle tyfir ffrwythau meddal. Mae 50% o'r rhan hon o'r fferm wedi'i dynodi'n SoDdGA. Dyma lle saif y ffermdy gwreiddiol, a ddefnyddir fel swyddfeydd yn awr, ac ysgubor a addaswyd yn ganolfan gymunedol a chegin hyfforddi.

SoDdGA

Mae'r rhan fwyaf o'r ffarm wedi'i dynodi'n safle o ddi-ddordeb gwyddonol arbennig. Oherwydd bod y tir wedi cael ei drin mor ofalus, mae'r ecoleg wedi ffynnu gan olygu bod i'r ffarm bwysigrwydd cenedlethol oherwydd ei glaswelltir, ei chapiau cwyr a'i ffyngau, ei thegeirianau a'i bywyd gwylt prin. Mae Moelyci'n profi sut y gall gwaith ffarm ac ecoleg gefnogi'i gilydd er lles pawb. Mae 26 rhywogaeth o gapiau cwyr wedi'u cofnodi yma, a 32 rhywogaeth o ffyngau prin eraill, sydd i'w gweld yn y glaswelltir niwtral a'r fignen.

Beth allwch chi ei wneud? HELPU I ACHUB Y FFARM!

Os oes gennych ddi-ddordeb mewn prynu Moelyci fel busnes hyfyw neu os hoffech warantu y bydd y ffarm yn cael ei diogel at y dyfodol:

Mae manylion llawn am y ffarm i'w cael yn

www.moelyci.org/sale-of-the-farm

Neu, beth am gael sgwrs efo un ohonom ni:

01248 602 793

Cewch hefyd ysgrifennu atom:

office@moelyci.org

Or why not visit us on our open day October 28th:

Lôn Felin Hen, Tregarth, Gwynedd, LL57 4BB

Further information about the farm on request.

*I feithrin bwyd da, bywyd gwylt a menter
lleol
For good food, wildlife and enterprise nurtured
locally*

Ffarm Moelyci, Lôn Felin Hen, Tregarth, LL57 4BB

www.moelyci.org

01248 602 793